



Cerdded

Conwy

Walks

Teithiau Cerdded yr Hydref Hydref 6,7,8 & 13,14,15 2017 Croeso!

Mae gennym un daith ychwanegol i ddweud wrthyhych amdan cyn dechrau Teithiau Cerdded yr Hydref. Mae Sue (Ein Cadeirydd) yn cerdded Taith Pererin Gogledd Cymru (mewn rhannau). Roedd rhan tri am fod ar Medi 16 ond roedd gan lawer ohonoch gynlluniau eraill ac yn siomedig na allech chi ei wneud. Felly, rydym wedi penderfynu newid dyddiad rhan tri y daith i Fedi 30. Mae rhan pedwar yn dilyn yn y rhaglen isod ar Hydref 14.

Medi 30

Taith Pererin Gogledd Cymru – Rhan 3 Llanely i Lansannan

Dyma'r trydydd rhan o Taith Pererin Gogledd Cymru o Dreffynnon i Ynys Enlli (133.9 milltir). Mae'r daith hon yn cychwyn o Llanely ger yr arfordir ac wedyn yn codi i fryniau Conwy gwledig, gan fynd trwy Llanefydd i orffen ym mhentref hardd Llanannan gyda'i dafarn hanesyddol, Y Llew Coch. Gallai'r daith hon fod yn fwdlyd iawn mewn manau.

Y cynllun yw parcio yn Llanannan ac i archebu bus i fynd â cherddwyr i ddechrau'r taith yn Llanely a cherdded yn ôl i Lansannan. Sylwch y bydd tâl am y bus o tua £8 y pen yn ychwanegol at y rhodd arferol o £2 y gofynnwyd amdani. Gellir cadarnhau manylion wrth archebu.

Pellter: 17.3km / 10.8 milltir

Hyd: 5 awr

Cyfarfod: Maes parcio yng nghanol Llanannan

Amser cychwyn: 8:45am i ddal y bus fel 9:00am. Bydd y daith gerdded yn dechrau am 9:30am y bore.

Archebu Lle: susan.hibbert@btinternet.com neu ffoniwch 01352 711648. Gadewch neges a rhif ffôn ar y peiriant ateb fel y gallaf ddychwelyd eich galwad

Caled

Hydref 6

Coedwig Gwydyr - mwynloddiau, llynnoedd, natur a golygfeydd

Gan ddechrau o faes parcio Llyn Sarnau, byddwn yn cerdded ar lwybrau a thraciau coedwigaeth i Warchodfa Natur hardd Cors Bodgynydd – awn ar hyd glan Llyn Bodgynydd (gwlyb o dan draed) - a thrwy'r goedwig i gyrraedd hen mwynloddiau. O'r fan honno, byddwn yn dilyn nant bach i gyrraedd cronfa ddŵr. Byddwn yn cwblhau'r daith gerdded gylchol ar lwybrau a thraciau – yn pasio hen gweithfeydd a siafftau o "Pwll / Canolfan Addysg Awyr Agored Nant Bwlch y Haearn".

Croeso i gwn ar dennyn ar y daith hon.

Hyd: 4-5 awr (bydd y tywydd yn effeithio ar ein hamser)

Pellter: 10 km / 6-7 milltir

Cyfarfod: maes parcio "Llyn Sarnau" yng Nghoedwig Gwydyr, SH 777592

Dechrau: 9:45am ar gyfer 10:00am

Archebu Lle: Jutta Lorenz-Kubis 01492 650705

Cymedrol



I'r Tywyllwch a ni- Coed y Gopa

Taith coetir sy'n croesi'r ffin rhwng dydd a nos. Hefo golau dydd yn tynnu fewn mwynhewch be sydd ar ôl o lliwiau'r hydref. Ceisiwch ddarganfod ystlumod a gwrandewch allan am creaduriaid y dydd fydd yn cael ei dilyn gan rhai yr nos. Dewch â thortsh a digon o ddillad cynnes, BYDDWN yn cerdded yn y tywyllwch! Mae croeso i blant dan 18 oed ond rhaid i riant neu warcheidwad fod gyda chi.

Hyd: 3 awr

Pellter: 4km / 2½ milltir

Cyfarfod: Tan y Gopa Road, LL22 8DS. Dilynwch yr arwyddion ar gyfer Cwrs Golff Abergele. Yn union ar ôl y cwrs golff, ewch i'r dde. Mae fynedfa y coed wedyn ar y chwith ar ôl tua 300m. Cyfeirnod grid: SH933771

Dechrau: 5:00pm ar gyfer 5.30pm

Archebu Lle: Kylie Jones Mattock 0343 770 5785 kyliejonesmattock@woodlandtrust.org.uk

Cymedrol

Hydref 7

Taith Gerdded Trên: Llanrwst i Fetws Y Coed a cherdded yn ôl trwy Goedwig Gwydyr

Byddwn yn mynd â'r y trên o Lanrwst i Fetws y Coed (taladwy) a byddwn yn cerdded yn ôl o Fetws y Coed i Lanrwst trwy Goedwig Gwydyr - bydd y tywydd yn penderfynu pa lwybr a gymerwn. Byddwn yn cerdded heibio Llyn Parc ac os yw'n braf, byddwn yn parhau trwy Hafna i Drefriw. Os nad yw'r tywydd mor dda, byddwn yn cerdded ffordd wahanol hyd at y llyn ac yn cymryd llwybr byrrach yn ôl i Lanrwst trwy Caerdroia.

Croesewir cŵn ar dennyn ar y daith hon.

Hyd: 5+ awr (os yw'r tywydd yn dda)

Pellter: 15 km / 9 milltir

Cyfarfod: maes parcio Glasdir, Llanrwst, LL26 0DF

Dechrau: 10:00am ar gyfer 10:15am i gerdded i'r orsaf drenau. Tren yn gadael Llanrwst 10:56am

Archebu Lle: Jutta Lorenz-Kubis 01492 650705

Cymedrol +

Hydref 8

Golygfeydd a Coed, Uwchben Mochdre i Bae Colwyn

Byddwn yn dal y bus o Fochdre i Fae Colwyn, lle byddwn yn dechrau ein taith gerdded i fyny a thrwy Warchodfa Natur Pwllcrochan. Byddwn yn ymweld â'r 'View' yn 'Colwyn Heights' a anelu i gael ein pecyn cinio yma gyda golygfeydd gwych o'n cwmpas. Byddwn yn parhau trwy gaeau ac ar hyd lonydd yn ôl i Mochdre lle gallwn fwynhau lluniaeth yn 'The Mountain View'. Mae yna ambell i ddarn serth iawn ar y daith hon. Mae esgidiau cerdded cryf yn hanfodol gan fod rhai rhannau mwdlyd iawn.

Nid yw'r daith hon yn addas ar gyfer cŵn oherwydd da byw mewn rhai o'r caeau.

Hyd: 4 - 4.5 awr i gynnwys stop cinio.

Pellter: 5.5km / 3.5 milltir

Cyfarfod: Y tu allan i'r swyddfa bost ym Mochdre. Mae maes parcio am ddim y tu ôl i'r siopau ar y briffordd, mae arwydd gyda 'P' a Llangwstenin arno. Nid oes toiledau ar gael yn y pentref. Fe fydd cyfle i ni gael lluniaeth ar ddiwedd y daith yn The Mountain View.

Dewch â phecyn cinio a digon o ddŵr gyda chi.

Dechrau: 10.50am i ddal Bws rhif 13 i Fae Colwyn (taladwy)

Archebu Lle: Ann Allen 07580545601 neu e-bostiwch ann.e.allen@btopenworld.com

Cymedrol



Hydref 13

Helpa Ffwng, Trefriw

Taith gerdded gylchol, yng Nghoedwig Gwydir gyda golygfeydd da o Eryri o Llyn Sarnau. Byddwn yn chwilio am ffwng sydd yn yr ardal. Byddwn yn nodi eich canfyddiadau a dysgu mwy am eu cylchoedd bywyd diddorol. Croeso i gwn ar denyn ar y daith hon.

Hyd: 3 awr

Pellter: 5 km / 3 milltir

Cyfarfod: Maes Parcio Trefriw, Gower Road (gyferbyn â Melin Wlân Trefriw) ar gyfer rhannu ceir ar daith byr i ddechrau'r daith gerdded.

Dechrau: 1:00pm ar gyfer 1:15pm

Archebu Lle: Dave & Joan Prime 01492 642605 neu 07889 851300

joandavetytop@btinternet.com

Hawdd / Cymedrol

Hydref 14

Taith Pererinion Gogledd Cymru - Taith 4 Llansannan i Llangernyw

Dyma'r bedwaredd ran o Daith Bererin Gogledd Cymru o Dreffynnon i Ynys Enlli (133.9 milltir). Mae'r tair rhan gyntaf wedi bod yn boblogaidd iawn. Cynigir yr adrannau sy'n weddill o'r daith yn ddilynol trwy'r rhaglenni sydd i ddod.

Byddwn yn cwrdd yn Llangernyw i ddal bws mini (taladwy) i Lansannan, lle bydd y daith gerdded yn cychwyn. Byddwn yn mynd trwy Gwytherin a Pandy Tudur cyn gorffen yn Llangernyw - cartref i'r coeden enwog Ywen Llangernyw sydd rhwng 4,000 a 5,000 oed. Mae'r daith gerdded yn bennaf ar hyd llwybrau cyhoeddus diffiniedig ond gall fod yn fwdlyd iawn mewn manau. Sylwch y bydd yna gost i dalu am y bws mini o tua £ 8.00 y pen yn ychwanegol at y rhodd arferol a ofynnir amdano o £2.00.

Hyd: 6 awr

Pellter: 20.8km / 12.9 milltir

Cyfarfod: Maes Parcio canolfan gymunedol Llangernyw

Dechrau: 8:45am i ddal bws 9:00am o Llangernyw i Lansannan, amser cychwyn cerdded: 9:30 am

Archebu Lle: Sue Hibbert 01352 711648 Os ydych yn gadael neges, gadewch rif llinell y gellir cyrraedd chi ar.

Caled

O Adar i Adfeilion, taith gerdded o RSPB Conwy i Gastell Deganwy

Ymunwch â ni ar y daith gerdded hawdd hon o RSPB Conwy wrth i ni ddilyn Llwybr Arfordir Cymru ar hyd yr aber i Deganwy. Yna byddwn yn gwneud ein ffordd i fyny i'r Vardre ac i'r safle (bryn) lle oedd Castell Deganwy yn sefyll. Mae yna lwybr cul (gweddol serth) i ben y bryn lle byddwn yn gweld golygfeydd panoramig o Gastell Conwy, Eryri, yr arfordir, Ynys Môn, Llandudno a'r Gogarth, Nant y Gamar, Dyffryn Conwy ... safle da i castell! Os nad ydych am fynd i ben y bryn mae yna fyrddau gwybodaeth y gellir eu gweld o gwmpas y gwaelod. Yn dibynnu ar y tywydd gallwn gael ein lluniaeth ar y Vardre. Byddwn yn dychwelyd i RSPB Conwy yr un ffordd ond bydd y golygfeydd ar y ffordd yn ol yn wahanol. Os hoffech, mae croeso i chi ymuno â ni am luniaeth yn caffi RSPB ar ddiwedd y daith. Croeso i deuluoedd. Dewch â lluniaeth, dillad ac esgidiau addas. Gall y Vardre fod yn fwdlyd a gwyntog!

Hyd: 2-3 awr (yn dibynnu ar yr hyn a welwn, stop cinio, tywydd)

Pellter: 6.8km / 4.5 milltir

Dechrau: 10:45am ar gyfer 11:00am

Archebu Lle: Colin Devine 07770 964716

Hawdd gydag un llethr serth



Hydref 15

Crimpiâu, Crafnant

Byddwn yn cerdded i fyny trwy'r goedwig ar hyd dyffryn hardd Crafnant hyd at ddiwedd Llyn Geirionydd ac ymlaen i Crimpiau ar ffyrdd coedwigaeth a hen draciau. Os ydym yn ffodus gyda'r tywydd, byddwn yn cael golygfeydd gwych o Eryri, Dyffryn Ogwen a'r Carneddau.

Hyd: 6-7 awr

Pellter: Tua 12km / 8 milltir

Cyfarfod: yn maes parcio Trefriw gyferbyn â'r felin wân. Mae toiledau, caffi a siop yn agos at ein pwynt cyfarfod.

Dechrau: 10:00am ar gyfer 10:15am

Archebu Lle: Colin Devine 07770 964716

Caled

*****Peidiwch ac anghofio darllen yr amodau archebu ar ddiwedd y rhaglen*****

****** Y Pethau Pwysig ******

Cefnogir Cerdded Conwy gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Fodd bynnag, mae gwirfoddolwyr yn arwain yr holl deithiau. Cyllid cyfyngedig sydd gan y grŵp, ac felly rydym yn gofyn am gyfraniad gan gerddwyr (**awgrymir £2**). Bydd pob rhodd yn mynd tuag at gefnogi gwaith Cerdded Conwy, i barhau i gynnal teithiau cerdded dan arweiniad er eich mwynhad.

Pa mor hawdd neu anodd yw'r teithiau cerdded?

Hawdd: Y rhan fwyaf yn wastad, o dan 4.8km/3 milltir.

Cymedrol: Rhai llethrau serth a thir anwastad 4.8-11km/

3-8milltir.

Caled: Gall fod yn serth iawn, dros 11km/7 milltir

Er eich diogelwch.... Rhaid i chi ddarllen copi o'r amodau archebu a chytuno â nhw cyn mynychu unrhyw deithiau cerdded.

Archebu Gofynnir i bob cerddwr archebu lle ar daith gerdded o flaen llaw oni nodir yn wahanol yn y rhaglen.

Mae hyn am y rhesymau canlynol: Er mwyn i'r cyfranogwr fwynhau'r daith gerdded; lechyd a Diogelwch: i gael y gymhareb gywir o arweinwyr i gerddwyr. Gall hyn amrywio o'r naill daith i'r llall gan ddibynnu ar y dirwedd, y math o daith gerdded a'r arweinydd; Er mwyn i'r arweinwyr gael y manylion sydd eu hangen am bob cerddwr.

Os bydd taith gerdded yn llawn, gellir cadw eich enw wrth gefn. Os bydd cyfranogwr yn cyrraedd ar ddechrau'r daith gerdded ond nad yw wedi archebu lle, mae hawl gan yr arweinydd i beidio â derbyn yr unigolyn ar y daith gerdded.



Iechyd Mae'n gyfrifoldeb ar bob cerddwr i sicrhau eu bod yn ddigon ffit yn gorfforol i gymryd rhan yn y teithiau cerdded y maent wedi eu dewis. Bydd arweinwyr yn gofyn i gerddwyr i ddatgelu unrhyw wybodaeth feddygol a allai effeithio arnynt ar unrhyw adeg ar y daith. Mae'r wybodaeth hon ar gyfer diogelwch a lles y cerddwr.

Dillad, Esgidiau, Bwyd a Diod Mae'n gyfrifoldeb ar bob cerddwr i sicrhau eu bod yn gwisgo dillad ac esgidiau addas ar gyfer yr amodau sy'n debygol o godi h.y. esgidiau cadarn a dillad dal dŵr. Argymhellir bod cerddwyr yn dod â bwyd a diod digonol ar gyfer eu hanghenion a hyd y daith. Dewch ag eli haul os oes angen. Mae gan yr arweinydd hawl i droi ymaith cerddwyr nad ydynt wedi paratoi yn ddigonol.

Pobl Ifanc Mae croeso i bob plentyn o dan 18 oed, ond rhaid iddynt fod yng nghwmni rhiant neu warcheidwad dros 18 oed. Gall rhai o'r teithiau cerdded fod yn anaddas i blant, os hoffech chi ddod â phlant ar y daith, cysylltwch ag arweinydd y daith gerdded i wirio y bydd hyn yn briodol.

Amser Dechrau Fel y nodwyd yn y rhaglen, a fydddech cystal â chyrraedd o leiaf 15 munud cyn dechrau pob taith er mwyn cofrestru. Bydd teithiau cerdded yn cychwyn ar yr amser cychwyn a nodir, p'un a yw'r holl gyfranogwyr wedi cyrraedd neu beidio.

Tywydd Bydd arweinwyr y teithiau cerdded yn y man cychwyn beth bynnag fo'r tywydd. Fodd bynnag, mewn amodau tywydd eithriadol, gall y daith gael ei newid neu ei chanslo i sicrhau diogelwch cerddwyr.

Newidiadau Mae'r trefnwyr yn cadw'r hawl i newid y rhaglen heb roi rhybudd ymlaen llaw. Mae'r manylion yn y rhaglen yn gywir adeg mynd i'r wasg. Mae arweinydd y daith gerdded yn cadw'r hawl i newid llwybr y daith gerdded yn ystod y daith os oes angen ar gyfer dibenion diogelwch.

Ffotograffau Yn ystod teithiau cerdded gall arweinwyr dynnu lluniau o gerddwyr y gellir eu defnyddio ar gyfer deunydd hyrwyddo yn y dyfodol. Dylai unrhyw un nad yw'n dymuno i'w hunain neu eu plentyn i gael tynnu ei lun ar gyfer deunydd hyrwyddo hysbysu arweinwyr a staff ar ddechrau'r daith.

Cŵn Mae croeso i gŵn ar yr holl deithiau cerdded oni nodir yn wahanol yn y rhaglen. Rhaid cadw cŵn ar dennyn bob amser.

Drogod Pan fyddwch yng nghefn gwlad rydych mewn perygl o gael eich brathu gan ddrogen. Gall trogod gludo amrywiaeth o glefydau felly mae'n bwysig eich bod yn gwybod beth i'w wneud os byddwch yn cael eich brathu, neu sut i osgoi cael eich brathu yn y lle cyntaf. I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.bada-uk.org.

Ysmygu Mae pob taith yn daith dim ysmygu.

Atebolrwydd Mae'r trefnwyr wedi ymdrechu i sicrhau cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol diogelwch pob cyfranogwr yn ystod y teithiau cerdded. Fodd bynnag, ni all y trefnwyr gael eu dal yn atebol, am unrhyw anaf neu ddifrod, neu achos o golli, eiddo personol neu unrhyw eiddo arall, sut bynnag yr achoswyd ac eithrio i'r graddau y mae'n deillio o esgeulustod uniongyrchol y trefnwyr a lle mae gan y trefnwyr ddyletswydd gofal. Rydym yn eich cynghori i drefnu yswiriant yn erbyn damweiniau ac anafiadau personol. Cyfrifoldeb y rhai sy'n cymryd rhan yn y teithiau cerdded yw bodloni eu hunain eu bod yn ddigon ffit ac yn gwisgo'n ddigonol ar gyfer y daith gerdded. Mae'r arweinwyr cerdded yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw gerddwyr sydd heb baratoi eu hunain yn ddigonol.

